

Chwarae

Rhifyn 42 Gwanwyn 2014

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan
yr elusen genedlaethol dros chwarae

dros Gymru



Chwarae ar dir y cyhoedd



Cynnwys

- | | | | |
|-----|---|-------|--|
| 2 | Golygyddol | 10 | Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar |
| 3-5 | Newyddion | 11 | Tŷ'r Arglwyddi yn dwyn perswad ar Lywodraeth y DU i weld synnwyr |
| 6-7 | Rhwydwaith Ewropeaidd o Ddinasoedd Plant-Gyfeillgar | 12-13 | Datblygu'r gweithlu |
| 8 | Dinas Plant-Gyfeillgar – Rotterdam | 14 | Ysbryd 2014 |
| 9 | Chwarae ar dir y cyhoedd | | |

Diolch yn fawr

Diolch o galon i bawb a gyfranodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi.

Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lawrlwytho o www.chwaraecymru.org.uk

Golygyddol

Yn aml iawn, mae mannau sy'n dda ar gyfer plant yn dda ar gyfer oedolion hefyd. Yn ei adroddiad yn 2007, *Seen and Heard: Reclaiming the public realm with children and young people*, mae Demos (melin drafod wleidyddol annibynnol sy'n canolbwyntio ar ymchwil er budd y cyhoedd) yn atgyfnerthu'r neges 'nad yw buddiannau plant a buddiannau'r gymuned yn gyffredinol, yn groes i'w gilydd ond eu bod, yn hytrach, yn perthyn yn agos i'w gilydd ac yn gyd-ddibynnol'. Mae gwerth gofod awyr agored ar gyfer chwarae plant, fel rhan o bolisiau cynllunio ac adfywio, wedi ei gydnabod mewn gwledydd Ewropeaidd eraill fel yr Iseldiroedd (gweler yr erthygl Dinas Plant-Gyfeillgar – Rotterdam ar dudalen 8).

Yma yng Nghymru, rydym yn croesawu penderfyniad Vaughan Gething AC, y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi, i 'barhau i wella cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc i chwarae'. Mewn datganiad diweddar cyhoeddodd ei fod e' a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi cytuno i wneud y paratodau angenrheidiol ar gyfer cychwyn adran 11(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010; neu'r hyn a adnabyddir

'Mae plant yn fath o rywogaeth sy'n ddangosydd ansawdd. Os allwn ni greu dinas lwyddiannus ar gyfer plant, bydd gennym ddinas lwyddiannus ar gyfer pob person.'
Enrique Penalosa (cyn-faer Bogotá, Colombia)

bellach fel y 'dyletswydd chwarae'. Bydd hyn yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd, cyn belled â bo'n rhesymol ymarferol, gan roi ystyriaeth dyledus i'w asesiadau digonolrwydd chwarae.

Mae Cymru'n arwain y ffordd yn fyd-eang o ran deddfu ar gyfer chwarae plant. Ond mae angen inni gydnabod bod gennym gryn gynnydd i'w wneud eto er mwyn gwella'r amgylchedd ar gyfer plant. Mae angen inni hefyd feddwl sut y cawn ni, fel gwlad, ein hystyried yn rhyngwladol.

Pan gyflwynodd Pwyllgor Gwlad y DU dystiolaeth ddiwethaf i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yng Ngenefa, roedd Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, yn bresennol i arsylwi'r trafodaethau. Adroddodd Keith bod trywydd holi'r swyddogion o Lywodraeth y DU, yn ystod un o'r sesiynau, wedi symud oddi wrth droseddu ieuencid i ganolbwyntio ar y modd y bydd cyfryngau'r DU yn adrodd am ac yn portreadu plant a phobl ifanc.

Arweiniodd hyn at gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor a ofynnodd,

'Allwch chi egluro pam eich bod chi yn y DU yn casáu eich plant gymaint?' Er nad yw Keith yn sôn beth oedd ymateb y swyddogion, mae'n dweud bod hyn wedi amlygu iddo fe y gellid gwella enw da rhyngwladol y DU o ran ei hymrwymiad i hawliau plant

Mae'n bryd inni ystyried sut y gallai Cymru'r dyfodol edrych ar gyfer ein plant a'u plant hwythau. A yw hi'n afresymol inni freuddwydio y gallai fod yn wlad ble y bydd rhieni'n teimlo bod eu plant mor ddiogel ag oedd ein neiniau a'n teidiau yn y gorffennol, yn chwarae'n y stryd ac yn crwydro ymhell, yn archwilio eu byd, yn hytrach na bod yn wlad ble y gall pobl ystyried ein bod yn 'casáu ein plant'? Ydyn ni wir am i'n wryon a'n wyresau gael yr un drafodaeth eto genhedlaeth o nawr, yn dal i resynu am golled rhyddid plant i chwarae?

Mae plant a phobl ifanc ar draws Cymru'n gofyn am fwy o amser, lle a chaniatâd i chwarae mewn cymunedau sy'n malio amdanynt ... 'does bosibl bod hynny'n ormod i'w ddisgwyl?

Mike Greenaway, Cyfarwyddwr



Newyddion

Cychwyn ail ran y Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Datganiad ysgrifenedig gan
Vaughan Gething AC, y
Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi
(13 Chwefror 2014).

Mae'n bleser gennyf hysbysu
Aelodau'r Cynulliad ein bod wedi
cymryd camau pellach mewn
perthynas â'n hymrwymiad manifesto
i 'barhau i wella cyfleoedd ar gyfer
pob plentyn a pherson ifanc i
chwarae'n ddiogel, ac yn arbennig i
wella mynediad i gyfleoedd chwarae
ar gyfer plant ag anabledau'.

Ar ddiwedd mis Ionawr [2014] cytunais
i a'r Gweinidog Cymunedau a
Trechu Tlodi y byddem yn gwneud
y paratodau angenrheidiol ar
gyfer cychwyn adrannau 11(3) ac
11(4) o Fesur Plant a Theuluoedd
(Cymru) 2010. Bydd Adran 11(3) yn
rhoi dyletswydd ar Awdurdodau
Lleol i sicrhau digon o gyfleoedd

chwarae ar gyfer plant o fewn eu
hardaloedd, i'r graddau y mae hynny'n
ymarferol, yn unol â'u hasesiadau o
ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae.
Bydd Adran 11(4) yn ei gwneud hi'n
ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi
gwybodaeth am gyfleoedd chwarae o
fewn eu hardaloedd a sicrhau bod yr
wybodaeth hon yn parhau'n gyfredol.

Cytunwyd yn ogystal y dylai
Canllawiau Statudol gael eu llunio i
gyd-fynd â chychwyn yr adrannau er
mwyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol
i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon.
Bydd Adran 70 o'r un Mesur hefyd yn
cychwyn er mwyn dwyn i rym bwerau
Gweinidogion Cymru i gyhoeddi
canllawiau o dan y Mesur.

Bydd hyn yn cwblhau'r gwaith
o gychwyn adran 11, Cyfleoedd
Chwarae o Fesur Plant a Theuluoedd
(Cymru) 2010.

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru yn
ymgyngori ar y Canllawiau
Statudol ar Sicrhau Cyfleoedd
Digonol i Chwarae ar hyn o bryd.
Y prif ddiben yw sicrhau bod y
rhai a gaiff eu heffeithio gan y
canllawiau hyn yn cael cyfleoedd
i gynnig eu barn ar y cynnwys a
hefyd awgrymu ychwanegiadau a
diwygiadau.

Dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r
ymgyngoriad: 30 Mai 2014

<http://bit.ly/1knwLjb>

Diwrnod Chwarae 2014

Os ydych chi'n gwybod
eisoes sut y byddwch yn
dathlu hawl plant i chwarae
ar Ddydd Mercher 6 Awst,
dywedwch wrthym am eich
cynlluniau trwy gofrestru
eich digwyddiad ar wefan
Diwrnod Chwarae. Yn
ogystal â helpu i greu darlun
o'r Diwrnod Chwarae ar
draws y DU cewch ddewis
cyhoeddi eich digwyddiad yn
y cyfeiriadur arlein i helpu i
gynyddu cyhoeddusrwydd a'r
nifer o bobl fydd yn mynychu.

Mae tafenni a phosteri swyddogol
Diwrnod Chwarae 2014 ar gael
bellach. Waeth os ydych yn cynnal
digwyddiad ac am ddweud wrth
bobl amdano, neu os ydych, yn
syml iawn, am gefnogi'r ymgyrch
trwy arddangos y poster i yn eich
gweithle, gallwch eu lawrlwytho
a'u hargraffu ar wefan Diwrnod
Chwarae.

Ceir hefyd lawer o gyngor,
arweiniad ac ysbrydoliaeth i helpu
i wneud eich dathliad yn llwyddiant
ysgubol; o restr wirio cyflym ar gyfer
cynllunio a chynghor codi arian, i
awgrymiadau defnyddiol gan

drefnwyr Diwrnod Chwarae a
chanllawiau ffotograffiaeth.

Dathlodd tua un miliwn o unigolion
Ddiwrnod Chwarae 2013 ar draws
y DU; rydym angen eich cymorth i
sicrhau y bydd Diwrnod Chwarae
2014 hyd yn oed yn fwy a gwell fyth!

www.playday.org.uk



Chwarae nawr – canolbwyntio wedyn!



Mae chwarae, trwy ddiffiniad, yn ymddygiad hyblyg ac anrhagweladwy sy'n sicrhau buddiannau uniongyrchol a hir dymor. Gall rhai o'r buddiannau hyn fod yn anodd i'w mesur ac o'r herwydd, mae'n anodd i sicrhau tystiolaeth ar gyfer asiantaethau ariannu. Mae ymchwilyr ym Mhrifysgol Glyndwr wedi cynnal cyfres o brosiectau ymchwil i fesur effeithiau corfforol ac ymddygiadol chwarae. Mae'r ymchwil wedi dangos y gall chwarae â rhannau rhydd yn ystod amser cinio ysgol gyfrannu tuag at y 60 munud o weithgarwch corfforol dyddiol cymharol fywiog i fywiog iawn a argymhellir er mwyn bod o fudd i iechyd plant ysgol. Yn ogystal, gall chwarae â rhannau rhydd gynyddu lefelau canolbwyntio yn yr ystafell ddosbarth, fodd bynnag astudiaeth fechan oedd hon.

O ganlyniad, mae ymchwilyr yn cynnal astudiaeth genedlaethol i archwilio effeithiau chwarae â rhannau rhydd ar lefelau canolbwyntio yn yr ystafell ddosbarth. Maent angen eich help i gyflawni hyn. Mae nifer o weithwyr chwarae wedi cofrestru i helpu eisoes – os y credwch y gallwch fod o gymorth neu os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sue Taylor: s.taylor@glyndwr.ac.uk

Y diweddaraf am – Project Wild Thing

Cefnogir ymgyrch *Project Wild Thing* gan grŵp cynyddol o bobl a mudiadau sydd wedi ymrwymo i gael plant yn ôl at natur. Mae'r Wild Network yn agored i bawb. Mae ar gyfer pob un sy'n credu y dylai plant allu crwydro'n rhydd, chwarae'n wyllt a chysylltu â natur. Cofrestrwch nawr ar www.projectwildthing.com/join

Dros y misoedd nesaf bydd y Wild Network yn datblygu syniadau polisi er mwyn helpu i chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl ifainc rhag ymgysylltu â natur. Mae croeso i bawb ymuno yn y gwaith yma. Oes gennych chi ddiddordeb? Ebostiwch policy@thewildnetwork.com

Cynhelir nifer fawr o ddangosiadau o'r ffilm *Project Wild Thing* ym mhob cwr o'r wlad. Bydd cyfres o ddangosiadau 'gwyllt' o *Project Wild Thing* mewn lleoliadau anarferol ar 10 – 11 Mai i gyd-fynd â Diwrnod Cenedlaethol y Plant yn y DU.

Am restr o ddangosiadau ymwelwch â: www.projectwildthing.com/film



RECONNECTING KIDS WITH NATURE

Pecynnau dangosiadau cymunedol

Gan weithio mewn partneriaeth â Learning through Landscapes (LtL) Cymru a Play England, mae Chwarae Cymru wedi cynhyrchu pecynnau i gefnogi dangosiadau cymunedol yng Nghymru. Mae'r pecyn rhad ac am ddim, sydd ar gael i drefnwyr dangosiadau cymunedol, yn cynnwys deunyddiau hyrwyddol *Project Wild Thing* yn ogystal â llyfryn holi ac ateb, pêl *No Ball*, poster a chrys-T Chwarae Cymru, a DVD o glipliau ychwanegol o'r ffilm gyda deunyddiau cefnogol ar gyfer gweithdai trafod.

Os oes gennych ddiddordeb trefnu eich dangosiad cymunedol eich hun ar gyfer ffrindiau neu gydweithwyr, ebostiwch wildscreening@greenlions.com ac yna cysylltwch â Chwarae Cymru i dderbyn eich pecyn – tra pery'r cyflenwad.

Gwobrau Dewi Sant – enwebiad gwaith chwarae

Roedd Julian Davenne, Rheolwr Gwasanaeth Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, ar y rhestr fer i dderbyn gwobr newydd – Gwobrau Dewi Sant. Roedd Julian yn un o'r bobl gyrhaeddodd y rownd derfynol i dderbyn Gwobr Dinasyddiaeth am ei waith fel gwirfoddolwr cymunedol yn Nhorfaen.

Mae Julian yn wirfoddolwr cymunedol ers nifer o flynyddoedd ac unai wedi sefydlu neu weithio i bron bob clwb ar gyfer plant a phobl ifainc anabl yn Nhorfaen. Mae'n ysgogi ac yn ysbrydoli pobl eraill i ddarparu gwasanaethau fydd yn newid bywydau plant a phobl ifainc trwy gynlluniau chwarae a

gweithgareddau corfforol a chelf a chreffft. Bydd hyn yn gwella bywydau miloedd o blant a phobl ifainc bob dydd, yn ogystal â bywydau eu rhieni, eu gwarchodwyr, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Cyhoeddodd Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, yn y Senedd ar 27 Chwefror 2013, ei fwriad i gydnabod a dathlu llwyddiannau eithriadol pobl o bob cefndir yng Nghymru trwy sefydlu cynllun gwobrau cenedlaethol – sef Gwobrau Dewi Sant. Cyflwynir y gwobrau hyn i bobl sy'n gwneud gwir wahaniaeth i ansawdd bywyd yng Nghymru.

www.gwobraudewisant.org.uk

The Land – ffilm ddogfen

Fel yr adroddwyd mewn rhifyn blaenorol, mae *The Land* yn ffilm ddogfen newydd am faes chwarae antur 'The Land' yn Wrecsam – sydd bellach bron a'i gorffen.

Treuliodd Erin Davis, y gyfarwyddwraig o America, dair wythnos ar 'The Land' ym mis Ebrill 2013. Gyda chriw bychan, ymgartrefodd yn y maes chwarae gan ddod i adnabod y plant a'r staff a dysgu am arfer gwaith chwarae. Mae'r ffilm gryno bellach yn cael ei ôl-gynhyrchu a disgwylir iddi fod yn barod yn Hydref 2014. Caiff ei dangos mewn gwyliau, amgueddfeydd, digwyddiadau chwarae ac mewn lleoliadau addysgol er mwyn eiriol dros chwarae a gwaith chwarae.

Mae peth o'r sain ar gyfer y ffilm wedi ei ddefnyddio eisoes mewn rhaglen ddogfen ar y radio a ddarledwyd yn America ac Awstralia, sydd wedi arwain at gynnydd mewn diddordeb yn 'The Land' a'i waith.

O fewn i ffens y maes chwarae darperir popeth y bydd y plant ei angen i wneud beth bynnag yr hoffent – sef lle, amser, rhyddid a rhannau rhydd.

www.playfreemovie.com



Am fwy o wybodaeth am faes chwarae antur 'The Land' ymwelwch â'u tudalen Facebook: www.facebook.com/playon.plasmadoc

Mae 'The Land' i'w weld hefyd ar restr diweddar y *Sport and Recreation Alliance* o'r '10 maes chwarae antur rhad ac am ddim gorau yn y DU'. Dywedodd y Gymdeithas:

'O ganol dinasoedd i barciau cenedlaethol, mae meysydd chwarae antur yn elfen allweddol o unrhyw ardal werdd. Fe wyddom fod cael plant i fynegi eu hunain trwy chwarae'r tu allan yn wych ar gyfer eu datblygiad, ac yn well fyth – mae'n llawer o hwyl!'

Edrychwch ar y rhestr cyflawn ar: www.sportandrecreation.org.uk

Arolwg Stryd Anferth – adnodd ar gyfer ysgolion

Mae *Big Street Survey* Sustrans yn adnodd newydd cyffrous sy'n galluogi disgyblion i archwilio'r ardal o amgylch eu hysgol a chreu maniffesto ar sut i wneud eu strydoedd yn fwy diogel a gwydd.

Trwy weithio yn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth, mae'r adnoddau'n cynnig cyfle i ddisgyblion archwilio'r hyn y maent yn ei hoffi ac nad ydynt yn ei hoffi am eu cymdogaeth. Yna gallant ddefnyddio eu maniffesto i lobi'r pobl sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a chynrychiolwyr etholedig ar lefel leol a chenedlaethol, er mwyn sicrhau bod y newidiadau hyn yn digwydd.

Mae rhai ysgolion wedi trefnu fforymau i drafod eu gwaith ag

arbenigwyr a llunwyr penderfyniadau lleol – mae eraill wedi derbyn ymweliadau gan eu Aelodau Seneddol – ymwelwch â gwefan Sustrans i weld enghreifftiau.

Wedi ei ddylunio gan un o swyddogion ysgolion Sustrans ac athro Daearyddiaeth cymwysedig, ynghyd â swyddogion addysgol eraill Sustrans, mae'n ateb amryw o amcanion y cwricwlwm, ynghyd ag amrywiol gyfleoedd traws-gwricwlaidd ar gyfer disgyblion hyn ysgolion cynradd yn ogystal â disgyblion iau ysgolion uwchradd. Mae'r adnoddau yn cynnwys nodiadau canllaw, llawlyfr i ddisgyblion a chyflwyniadau PowerPoint.

www.sustrans.org.uk



Cyfringau
Cymdeithasol



www.facebook.com/ChwaraeCymru



twitter.com/ChwaraeCymru

Rhwydwaith



Ewropeaidd o Ddinaso

Mae'r Rhwydwaith Ewropeaidd o Ddinasoedd Plant-Gyfeillgar (EN CFC), a sefydlwyd yn 2000, wedi ymrwymo i hyrwyddo hawliau a diddordebau plant a phobl ifainc yn eu cymunedau lleol.

Nod y Rhwydwaith yw gwella bywydau, cyfleoedd ac amgylcheddau plant. Mae'n anelu i wneud hyn trwy gasglu ynghyd y profiad, y wybodaeth a'r doniau dynol a geir mewn elusennau plant, rhwydweithiau, cymdeithasau dinesig ac awdurdodau lleol yn Ewrop. Mae hefyd yn anelu i gynyddu ymwybyddiaeth cymdeithasol a gwleidyddol am bwysigrwydd datblygiad plant ar gyfer lles economaidd-gymdeithasol. Mae adeiladu dinasoedd plant-gyfeillgar yn rhan hanfodol o weithredu Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mewn sefyllfa llywodraeth leol.

Mae'r Rhwydwaith yn glynu at bum canllaw cyffredinol ac yn annog rhwydweithiau lleol a chenedlaethol i drosi'r rhain yn bolisiau lleol, penodol sy'n mynd i'r afael â phwyntiau ffocws lleol:

- **Agwedd holistig:** Mae cyfeillgarwch at blant yn galw am agwedd holistig ac mae'n gynrychiadol o'r ddinas gyfan a'i holl agweddau, ac nid yw'n nodwedd a gyfyngir i ddatblygiad darpariaeth penodol.
- **Agwedd integredig:** Dylai pob agwedd ar fywyd mewn ardal drefol fod yn gyfeillgar at blant: addysg, symudedd, cynllunio trefol, gwasanaethau gofal, iechyd, amgylchedd, hamdden, chwaraeon a llawer mwy.
- **Agwedd pontio'r cenedlaethau:** Nid yw bod yn blant-gyfeillgar yn awgrymu bod plant angen eu dinas eu hunain ond mae'n awgrymu y

dylai plant gael eu cydnabod fel dinasyddion sy'n rhan o'r ddinas gyflawn. Ddylai plant ddim cael eu hynysu'n gymdeithasol.

- **Pwysigrwydd cyfranogaeth plant a phobl ifainc:** Waeth beth fo'u hoedran, dylid cydnabod plant a phobl ifainc fel dinasyddion all gyfrannu yn eu ffyrdd eu hunain tuag at ansawdd bywyd trefol.
- **Masnach ddynamig a her barhaol:** Yn hytrach na bod yn frand neu'n label parhaol, mae bod yn blant-gyfeillgar, yn bennaf oll, yn uchelgais ddigyfnewid y bydd dinas yn ymdrechu'n barhaus i'w chyflawni.

Hawliau Plant

Mae Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn amlinellu 42 o erthyglau sy'n diffinio sut y dylid trin plant a phobl ifainc a'r modd y dylai llywodraethau fonitro CCUHP. Mae Llywodraeth Cymru a'r DU wedi cyd-lofnodi'r confensiwn. Mae tair erthygl yn benodol sy'n ddefnyddiol i'w hystyried wrth ddarparu ar gyfer chwarae plant mewn ardaloedd cyhoeddus:

- **Erthygl 31: Yr hawl i chwarae, hamdden a diwylliant**
Mae gan blant hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno ag ystod eang o weithgareddau diwylliannol, artistig a hamdden eraill. Mae'r Cenedloedd Unedig wedi cyhoeddi Sylw Cyffredinol Rhif 17 ar Erthygl 31.
- **Erthygl 12: Parch tuag at farn y plentyn**

Pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant, mae gan blant hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd yn eu barn hwy a gwybod y caiff eu barn ei hystyried.

- **Erthygl 15: Rhyddid i gymdeithasu**
Mae gan blant hawl i gwrdd â'i gilydd.

Mae Sylw Cyffredinol yn ddatganiad swyddogol sy'n ymhelaethu ar ystyr elfen o GCUHP sy'n ymddangos fel pe bae angen pwyslais neu ddehongliad pellach. Bwriad Sylw Cyffredinol yw pwysleisio pwysigrwydd Erthygl penodol a chynyddu atebolrwydd ymhlith gwledydd sydd wedi cyd-arwyddo'r Confensiwn.

Mae sylw Cyffredinol Rhif 17, ar hawl y plentyn i orffwys, hamdden, chwarae, gweithgareddau adloniadol, bywyd diwylliannol a'r celfyddydau (Erthygl 31), yn dynodi ystod o heriau y dylid mynd i'r afael â hwy os yw plant i sichau eu hawliau o dan Erthygl 31. Mae'n nodi, yn benodol, bod gwrthwynebiad i ddefnydd plant o fannau cyhoeddus yn her sylweddol.

'Caiff defnydd plant o fannau cyhoeddus ar gyfer chwarae, adloniant a'u gweithgareddau diwylliannol eu hunain ei lesteirio gan fasnacheiddio cynyddol manau cyhoeddus, y mae plant wedi ei eithrio ohonynt. Yn ogystal, mewn nifer o ardaloedd o'r byd, gwelir llai a llai o oddefgarwch tuag at blant mewn manau cyhoeddus: er enghraifft, gosod cyrffw ar blant; cymunedau neu barciau adwyog; llai o oddefgarwch o ran lefelau sŵn;

edd Plant-Gyfeillgar

meysydd chwarae â rheolau llym am ymddygiad chwarae "derbyniol"; bydd cyfyngiadau ar fynediad i farchnadfeydd siopa yn creu canfyddiad bod plant yn "broblem" ac / neu'n droseddwy. Caiff pobl ifainc yn eu harddegau, yn benodol, eu hystyried yn gyffredinol fel bygythiad o ganlyniad i ddehongliad a sylw negyddol eang yn y cyfryngau, a'u hannog rhag defnyddio manau cyhoeddus.'

Mae'n nodi hefyd bod gan: 'Eithrio plant oblygiadau sylweddol i'w datblygiad fel dinasyddion. Mae profiad cyffredin o fannau cyhoeddus cynhwysol gan wahanol grwpiau oedran yn helpu i hybu ac atgyfnerthu cymdeithas ddinesig ac annog plant i ystyried eu hunain yn ddinasyddion sydd â hawliau. Annogir gwledydd i hyrwyddo dialog rhwng cenedlaethau hyn ac

iau er mwyn annog cydnabyddiaeth cynyddol o blant fel deiliaid hawliau, ac am bwysigrwydd rhwydweithiau o fannau cymunedol amrywiol mewn ardaloedd lleol neu fwrdeistrefi, all ddarparu ar gyfer anghenion adloniadol a chwarae pob plentyn.'

www.childfriendlycities.eu

www.chwaraecymru.org.uk/cym/sylwcyffredinol

ASTUDIAETH ACHOS

Leeds Plant-Gyfeillgar

Mae Cyngor Dinas Leeds wedi gosod nod i'w hun o fod yn ddinas dda i blant a phobl ifainc dyfu i fyny ynnddi – i astudio, gweithio a chwarae. Mae'r ymroddiad yma'n seiliedig ar ymgyrch fyd-eang Dinasoedd Plant-Gyfeillgar ac mae'n cael ei gyrru gan leisiau plant a phobl ifainc Leeds.

Lansiodd Cyngor Dinas Leeds ei weledigaeth 'Leeds Chwarae-Gyfeillgar' bron i ddwy flynedd yn ôl er mwyn sicrhau bod plant yn y ddinas yn cael y cychwyn gorau posibl mewn bywyd, ac ers hynny mae dinasoedd ar draws y byd wedi cysylltu â hwy i ofyn am gyngor. Mae gweledigaeth Leeds o ddinas plant-gyfeillgar yn golygu man ble fo plant yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi, yn mwynhau tyfu i fyny ynnddo, ac yn edrych ymlaen i ddyfodol disglair.

Cychwynwyd yr ymgyrch gan ddau arweinydd allweddol y cyngor yn y gwasanaethau plant – sef y Cynghorydd Judith Blake a chyfarwyddwr y gwasanaethau plant, Nigel Richardson, sydd ill dau wedi gweithio'n galed i feithrin y gwerthoedd a'r ethos yma, nid yn unig trwy'r cyngor yn gyffredinol, ond hefyd ar draws y ddinas gyfan.

Mae'r cyngor wedi gwrandao ar blant a phobl ifainc y ddinas er mwyn dysgu beth maent ei angen fwyaf er mwyn gwneud eu bywydau'n well. Lluniwyd rhestr o '12 prif ddymuniad' plant a phobl ifainc o'r canlyniadau, sy'n cynnwys:

- Plant a phobl ifainc yn teimlo bod canol y ddinas yn groesawus a diogel, gyda manau cyfeillgar i fynd iddyn nhw, i gael hwyl ac i chwarae

- Manau a lleoliadau ble y bydd plant a phobl ifainc yn treulio amser a chwarae ynnddynt, sy'n rhydd o sbwriel a baw cŵn.

Mae'r cyngor yn gweithio i gyflawni'r dymuniadau hyn ac mae'n awyddus i gael pawb i gefnogi eu gweledigaeth – yn fusnesau, mudiadau, elusennau ac yn bennaf oll, yn deuluoedd. Mae partneriaeth ddiweddar gyda phapur newydd y ddinas – y *Yorkshire Evening Post* – wedi gwneud llawer i gynyddu ymwybyddiaeth a lledaenu neges y cyngor ymhellach.

Meddai'r Cynghorydd Judith Blake, dirprwy-arweinydd Cyngor Dinas Leeds:

'Os y gallwn roi'r cychwyn gorau posibl i blant a phobl ifainc a gwneud y ddinas y man gorau ar gyfer tyfu i fyny ynnddi, yna bydd gennym ddyfodol cynaliadwy, llewyrchus ac economaidd yn Leeds.'

www.leeds.gov.uk/childfriendlyleeds

Twitter: @Child_Leeds



Dinas Plant-Gyfeillgar – Rotterdam

Yn yr Iseldiroedd nododd system fonitro, a gyhoeddwyd yn 2005, mai Rotterdam oedd y ddinas lleiaf dymunol yn y wlad i dyfu i fyny ynddi. Datblygwyd y system fonitro i wella polisi ieuencid ar lefel leol, trwy ddangos data cyfoes ar statws plant o fewn cymunedau.

Ein cyfaill, Froukje Hajer, arbenigwraig ar chwarae, amgylchedd a hawliau plant, sy'n cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y profiadau yn Rotterdam.

Lluniodd Rotterdam raglen Dinas Plant-Gyfeillgar i wella ei delwedd plant-gyfeillgar ac er mwyn cadw teuluoedd yn y ddinas; mae dinasoedd angen trigolion am resymau economaidd – yn enwedig teuluoedd.

Fel gyda'r mwyafrif o ddinasoedd yn yr Iseldiroedd, symudodd teuluoedd â phlant i drefi a dinasoedd llai o faint yn y rhanbarth er mwy caniatáu i'w plant dyfu i fyny mewn cymdogaethau mwy deniadol. Yn 2006, datblygodd un o henaduriaid y ddinas, Lukas Geluk, oedd yn bryderus ynghylch effaith mudo ar economi a bywiogrwydd y ddinas, raglen i greu Rotterdam Plant-Gyfeillgar, gyda'r gobaith y byddai mwy o rieni'n dewis aros yn y ddinas i fagu eu teuluoedd.

Mae rhaglen Rotterdam Plant-Gyfeillgar yn anelu i:

- Gyfoethogi'r ddinas fel lleoliad preswyl
- Cadw teuluoedd yn y ddinas
- Atgyfnerthu'r economi
- Gwella ansawdd bywyd ar gyfer plant o 0-18 mlwydd oed.

Cyflwynwyd dull cynllunio trefol sy'n cynnig ffordd newydd o edrych ar y ddinas. Mae *Building Blocks for a Child Friendly Rotterdam* yn

cynnwys pecyn ymarferol o bedwar Bloc Adeiladu y gellir eu defnyddio i ddynodi cryfderau a gwendidau cymdogaethau trefol. Trwy'r dull hwn, mae Rotterdam yn anelu i dyfu'n ddinas gynaliadwy ble y bydd gan blant, yn llythrennol ac yn ffiguridd, le i dyfu.

Mae'r Blociau Adeiladu yn cynnwys:

- Tai plant-gyfeillgar sy'n cydnabod bod tai teuluoedd unigol â gerddi, a fflatiau plant-gyfeillgar, yn ddelfrydol ar gyfer magu plant. Ffurfiwyd yr amodau ar gyfer cartrefi plant-gyfeillgar mewn partneriaeth â datblygwyr prosiectau a chorfforaethau tai.
- Mannau cyhoeddus sydd wedi eu anelu tuag at anghenion penodol plant. Mae'r bloc adeiladu hwn yn delio ag amodau ar gyfer ardaloedd chwarae, ardaloedd chwarae awyr agored a'r defnydd o'r gofod rhwng rhiniog y drws ac ymyl y stryd. Mae un o'r amodau'n cynnwys darparu palmentydd sy'n addas ar gyfer chwarae (tri i bum metr o led) ar o leiaf un ochr o'r stryd (yn ddelfrydol, ochr heulog y ffordd).
- Mae cyfleusterau megis ysgolion estynedig ac amgylchedd ysgol diogel, o ran patrwm a chynllun maes chwarae'r ysgol, hygyrchedd a'r gymhareb rhwng lleiniau gwyrddion ac ardaloedd ag arwyneb caled, yn cyfrannu

at gymdogaeth fywiog a chydlynid cymdeithasol.

- Mae llwybrau traffig diogel, sy'n blant-gyfeillgar, yn annog plant i archwilio'r ddinas a chyfranogi ym mywyd y ddinas mewn modd mwy annibynnol.

Wrth fyfyrio ar y cynnydd a welwyd yn Rotterdam, meddai Froukje,

'Mae'n bleser gweld bod henaduriaid Rotterdam wedi ymrwmo i wneud Rotterdam yn Ddinas Plant-Gyfeillgar. Maent wedi sicrhau cynnydd da ers i'r ddinas gynnal cynhadledd Child in the City yn 2008.

Mae'r rhaglen wedi arwain at fabwysiadu agwedd fwy cadarnhaol tuag at bresenoldeb plant a'u defnydd o fannau cyhoeddus. Fy ngobaith personol ar gyfer y dyfodol yw y gwelir gwell integreiddio rhwng prosiectau strwythurol a pholisi cymdeithasol. Gall sectorau gwaith chwarae a gwaith ieuencid y ddinas helpu i ymgorffori gweledigaethau plant a rhieni.'

Mwy o wybodaeth:
<http://bit.ly/1fZMg0H>

Chwarae ar dir y cyhoedd

Mae gan blant ac oedolion wahanol gysyniadau o'r hyn sy'n gwneud gofod chwarae gwerthfawr. Mae Lester a Russell, wrth grynhoi nifer o astudiaethau¹, yn nodi fod dymuniad oedolion am ddiogelwch, trefn a bod yn weladwy yn hollol wahanol i ddymuniad plant am anrhefn a rhannau rhydd. Lle mae oedolion yn gweld darn segur a diolwg o dir gwastraff sydd angen ei ailddatblygu, mae plant yn gweld gofodau sy'n cynnig rhyddid i gael anturiaethau, i ymchwilio, i feddwl, i greu cuddfannau a chymdeithasu gyda'u ffrindiau. Mae'r gofodau hyn yn rhannu nodweddion agosatrwydd, lle gwyllt, cyfrinachedd a phosibiliadau, eto byddai'n ymddangos fod y rhain ymhell o feddwl cynllunwyr.

Buddiannau chwarae

Yn eu hadolygiad o waith ymchwil i chwarae plant, mae Lester a Russell yn tanlinellu'r ffaith mai un canfyddiad allweddol o dystiolaeth ddiweddar yw bod chwarae plant yn 'darparu ymddygiad sylfaenol ar gyfer datblygu gwytnwch, a thrwy hynny gyfrannu'n sylweddol at les plant'.

Gellir ystyried gwytnwch fel y gallu i dderbyn anawsterau a chodi uwchben adfyd a gwrthsefyll heriau difrifol, straen a risgiau. Mae'n gysyniad cymhleth a deinamig sydd nid yn unig yn cynnwys nodweddion seicolegol y plentyn ond hefyd deulu, rhwydweithiau cymdeithasol a chymdogaeth y plentyn.

Chwarae a gofod cyhoeddus

Canfu ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree³ fod ffocws ar chwarae a gofod cyhoeddus yn ffactor allweddol wrth wneud cymunedau newydd a chymunedau wedi eu hadfywio yn ddeniadol i deuluoedd. Daeth y Comisiwn Pensaernïaeth yn yr Amgylchedd Adeiledig (CABE)⁴ i gasgliadau tebyg o'i ymchwil ar farn preswylwyr tai newydd.

Cydnabuwyd gwerth gofod awyr agored ar gyfer chwarae plant fel rhan o bolisi cynllunio ac adfywio mewn gwledydd eraill. Er enghraifft gweler yr erthygl Dinas Plant-Gyfeillgar – Rotterdam ar y dudalen flaenorol sy'n disgrifio sut mae dylunio trefol wedi'i seilio ar yr egwyddor fod pob gofod cyhoeddus yn ardal chwarae posibl ac y dylai'r holl ddatblygiadau

newydd a datblygiadau adfywio ganiatáu ardal wedi'i diffinio'n glir o ofod diogel, hygyrch a deniadol i blant chwarae arno.

Cymru – lle chwarae-gyfeillgar?

Mae Adran 11 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal. Daw'r Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae fel rhan o agenda gwrthlodi Llywodraeth Cymru sy'n cydnabod y gall plant ddiodesf tldi profiad, cyfle ac uchelgais, ac y gall y math yma o dlodi effeithio ar blant o bob cefndir cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ar draws Cymru.

Mae'r Canllaw Statudol yn eang ac yn cydnabod y gall darparu cyfleoedd chwarae da hefyd gyfrannu'n sylweddol at yr agenda ar gyfer yr holl gymuned, gan gynnwys:

- Diogelwch cymunedol - trwy ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer plant a phob dinesydd arall.
- Datblygu cynaliadwy - trwy ddarparu amgylchedd sy'n denu teuluoedd i weithio a byw mewn ardaloedd sy'n diwallu anghenion yr holl deulu dros gyfnod.

Datblygu gofod ar gyfer chwarae

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn pwysleisio'r angen i awdurdodau lleol gyfathrebu'n glir yr hyn a ddisgwyliant gan ddatblygwyr

tai newydd. Trwy'r broses Asesu Digonolrwydd Chwarae, mae swyddogion cynllunio a dylunio mewn nifer o awdurdodau lleol wedi mynegi eu hymrwymiad i sicrhau bod integreiddio gofodau agored dynodedig, megis y rhai ar gyfer chwarae, yn cael eu hystyried ar ddechrau'r broses ddylunio. Rydym yn dechrau gweld sut y gellir gwella polisi cynllunio i roi gwell mynediad i gyfleoedd chwarae lleol.

Chwarae yn y gymuned

Gall cymunedau fanteisio drwy well cysylltiadau cymdeithasol yn cynnwys grwpiau amrywiol a gwahanol genedlaethau. Mae gan hyn y potensial i gynyddu cyfranogiad ac atal ystrydebau negyddol. Fel y pwysleisiodd Valentine⁵, mae rhaid i ni ymbellhau oddi wrth strategaethau sy'n gweld 'plant fel problem a ddylai gael eu corlannu ar gyfer eu diogelwch eu hunain, neu eu cyfyngu ar gyfer diogelwch pobl eraill'.

1. Lester, S. a Russell, W. (2008) *Play for a Change: Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives*. Llundain: National Children's Bureau.
2. *ibid.*
3. Joseph Rowntree Foundation (2006) *A Good Place for Children? Attracting and retaining families in inner urban mixed income communities*. Efrog: Joseph Rowntree Foundation.
4. CABE (2005) *What it's like to live there*, Llundain: Comisiwn Pensaernïaeth yn yr Amgylchedd Adeiledig.
5. Valentine, G. (2004) *Public Space and the Culture of Childhood*. Aldershot: Ashgate Publishing Limited.

Cymru Gwlad Chwarae-Gyfeillgar

Mae Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar yn ymgyrch gan Chwarae Cymru i helpu i greu rhwydwaith o gefnogaeth ar gyfer chwarae ar draws Cymru. Rhannwch yr hyn sy'n digwydd yn lleol, sydd unai'n gwarchod neu'n gwahardd hawl plant i chwarae, ar dudalen yr ymgyrch ar Facebook. Dyma enghraifft o brosiect sy'n cyfrannu tuag at ddatblygu mannau cyfeillgar ar gyfer plant sy'n chwarae.

Mae trigolion Heol Windsor, Y Fenni wedi symud eu ceir o'r stryd mewn cyfres o ddiwyddiadau i gau'r stryd, pryd y gwelwyd plant lleol yn chwarae ger eu cartrefi.

Yn seiliedig ar fodel *Playing Out* Bryste ac wedi ei ysbrydoli gan ffrind oedd wedi trefnu i gau strydoedd ar gyfer chwarae yn Worthing, aeth Chloe Charrington, sy'n fam leol, at Gyngor Sir Fynwy er mwyn ceisio sicrhau chwarae ar y stryd yn ei chymdogaeth.

Bellach mae trigolion Heol Windsor wedi cau eu stryd ar gyfer sesiynau chwarae ar y stryd ar ôl ysgol ac ar y penwythnos ar nifer o achlysuron. Mae'r pwyslais ar chwarae rhydd, di-strwythur ac fel arfer bydd y plant yn dod â'u teganau eu hunain allan – yn raffau sgipio, beiciau, sgwteri a sialc.

Mewn sesiwn chwarae allan yn ddiweddar gwelwyd plant ar eu sgwteri, yn seiclo, chwarae rygbi a phêl-droed ac yn gorchuddio'r ffordd â sialc.

Treuliodd un plentyn y rhan fwyaf o'r ddwyawr yn creu patrwm mewn llinell droellog o un pen o'r heol i'r llall, tra bo'r plant eraill yn rhedeg neu'n seiclo ar ei hyd. Bu sialc mawr, trwchus yn llwyddiant ysgubol!!

Mae'r digwyddiadau hyn wedi eu harwain gan gymdogion ar gyfer cymdogion, a chaiff y digwyddiadau hyn ond eu hysbysebu yn y strydoedd cyfagos. Caiff y traffig trwodd ei atal, gyda stiwardiaid gwirfoddol ger pob lleoliad ble y mae'r ffordd wedi ei chau er mwyn ailgyfeirio traffig trwodd ac i hebrwng ceir trigolion i mewn ac allan yn ddiogel. Mae'r rhieni a gofalwyr yn gyfrifol am eu plant eu hunain.

Er mwyn cefnogi'r fenter, bydd Cyngor Sir Fynwy'n defnyddio Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 er mwyn caniatáu cau nifer o ffyrdd ar gyfer chwarae. Caiff yr agwedd yma tuag at Orchmynion Cau Strydoedd Dros Dro ei defnyddio'n llwyddiannus gan nifer o awdurdodau lleol mewn ardaloedd eraill o'r DU. Yn Y Fenni caiff cais ei gwblhau a'i gyflwyno ar gyfer pob achos o gau'r ffordd.

Er mwyn sicrhau ei fod yn digwydd, bydd Chloe'n darparu map lleol i'r cyngor yn nodi ble y byddai'r heol yn cael ei chau ac yn derbyn caniatâd


a chefnogaeth yr holl drigolion lleol trwy fynd i guro ar bob drws gyda chymorth ei phlant. Bydd trigolion lleol yn helpu gyda'r gwaith o argraffu a dosbarthu taflenni ac arwyddion, ac mae cymydog wedi helpu i drefnu arwyddion swyddogol 'Ffordd ar Gau'.

Dros y degawdau diwethaf tyfodd y gred gyffredinol bod 'ffyrdd ar gyfer ceir' ac mae'r syniad o strydoedd fel mannau chwarae wedi diflannu bron yn llwyr. Fel rhan o'r Asesiadau Digonolrwydd Chwarae, mae plant a phobl ifainc sy'n byw yng Nghymru, a'u rhieni, wedi dweud wrthym eu bod yn wynebu llawer o rwystrau i chwarae allan gyda'u ffrindiau (yn bennaf – ceir wedi eu parcio a chyflymder a niferoedd y ceir, ofn dieithriaid ac amgylcheddau ac agweddau anghroesawus).

Mae angen inni newid yr amgylchedd trwy ein cymunedau'n gyffredinol er mwyn creu Cymru sy'n chwarae-gyfeillgar; ac mae hyn yn galw am gefnogi newid agweddau a safbwyntiau. Gall cymdogaethau lleol cryfion leddfufnau rhieni am weld eu plant yn chwarae'r tu allan trwy ddarparu ymdeimlad o gymuned a diogelwch.

Mae'r sesiynau chwarae stryd yn rhoi lle a chaniatâd i blant chwarae ar y stryd, tra bod oedolion yn cael cyfle i gwrdd â, a dod i adnabod eu cymdogion yn well. Pan fyddwch yn adnabod eich cymdogion mae'n llawer rhyddach i adael i'ch plant chwarae'r tu allan.

on.fb.me/gwladchwaraegyfeillgar



Tŷ'r Arglwyddi yn dwyn perswâd ar Lywodraeth y DU i weld synnwyr

Ym mis Ionawr 2014, rhoddodd gweinidogion y Swyddfa Gartref y gorau i'w hymdrech i ddisodli Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBOs) a chyflwyno Gwaharddiadau newydd i Atal Niwsans ac Atal Tarfu (IPNA) yn dilyn beirniadaeth eang ac un o orchfygiadau mwyaf y llywodraeth yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Yn ystod dadl ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma yn Nhŷ'r Arglwyddi pleidleisiodd yr arglwyddi o 306 i 178 i wrthod Gwaharddebau i Atal Niwsans ac Atal Tarfu ar Bersonau.

Fel rhan o Fil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma llywodraeth y DU byddai IPNAs yn disodli ASBOs yng Nghymru a Lloegr – a gellid eu gosod ar unrhyw un dros 10 mlwydd oed a oedd yn 'ymddwyn mewn modd allai beri niwsans i neu allai darfu ar unrhyw berson'.

Ym mis Gorffennaf 2013, cydlynodd Chwarae Cymru, ynghyd â Play England, lythyr a gyhoeddwyd yn *The Times* (16 Gorffennaf 2013) ble y gwnaethom ni, a nifer fawr o gefnogwyr, leisio ein pryderon bod cynlluniau i ddiwygio diffiniad ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fygythiad sylweddol i ansawdd bywyd ar gyfer plant ar draws Cymru a Lloegr.

Roeddem yn pryderu'n fawr iawn ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r

Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma. Bwriadwyd i'r gwaharddiad newydd gael ei orfodi ar blant o 10 mlwydd oed i fyny ac roedd yn galw am lawer llai o dystiolaeth i'w orfodi na'r 'ASBOs' blaenorol ond, o'i dorri, gallai'r gosb arwain at garcharu. Roedd Cymdeithas Swyddogion yr Heddlu yn rhannu'r pryder hwn, ac yn awgrymu bod y trothwy newydd yn rhy oddrychol ac y gallai, yn gwbl ddiangen, droseddoli plant am fod yn blant.

Byddai'r ddeddfwriaeth yma, nid yn unig yn llwyr wrth-ddweud galwad y Cenhedloedd Unedig i gefnogi hawl plant i chwarae, byddai hefyd yn syml iawn yn gweithredu fel rhwystr arall sy'n atal plant rhag chwarae'r tu allan gyda'u ffrindiau yn y stryd, yn y parc neu fannau cyhoeddus eraill, gan beryglu iechyd corfforol a meddyliol plant ymhellach.

Rydym yn falch iawn bod Tŷ'r Arglwyddi wedi annog y llywodraeth i ailystyried eu argymhellion. Mae rhaid i ymdrechion i drechu

ymddygiad gwrthgymdeithasol fod yn rhesymol, yn gymesur ac yn effeithlon. 'Roedd yr hyn a gynigiwyd yn bell iawn o hynny.



© Catrin Elen Rees

Cynhadledd Bywyd Stryd

Cynhaliwyd Cynhadledd Bywyd Stryd, a gynlluniwyd gan grŵp Swyddogion Chwarae Gogledd Cymru, mewn ymateb i'r elfennau o'r Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae sy'n cyfeirio'n benodol

at bresenoldeb cynyddol plant ar strydoedd preswyl fel manau i chwarae a chymdeithasu. Mynychodd dros 60 o gyfranogwyr o bob cwr o Ogledd Cymru'r digwyddiad yn gynharach eleni,

yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod o wahanol sectorau'n cynnwys yr heddlu, cynllunio, priffyrdd, cludiant, chwarae, cefn gwlad, parciau a diogelwch cymunedol.

Parhad ar dudalen 12

Cynhadledd Bywyd Stryd – Parhad o dudalen 11

Dyweddodd Mike Barclay, gyflwynodd sesiwn friadol bryfoclyd â'r teitl 'Cadw plant AR y strydoedd':

'Mae'r stryd yn fan ble y bydd pob math o bobl yn rhyngweithio â'i gilydd, ble y byddant yn dod i adnabod ac yn cael eu hadnabod, ble y caiff perthnasau eu ffurfio a ble y bydd perthyn yn datblygu. Bydd mynediad pobl i strydoedd preswyl, a'u defnydd ohonynt, yn effeithio ar eu gallu i lywio eu hunain at adnoddau eraill sydd o fudd i iechyd ac o'r herwydd, mae ganddo'r potensial i fod o fudd i nifer o agendâu eraill, yn cynnwys: teithio gweithredol, lles emosïynol a chorfforol, cydlyniad cymunedol a chanfyddiadau ynghylch diogelwch.'

Roedd y siaradwyr eraill yn cynnwys Carys Thomas (Sustrans), Mary Nicholls (Tîm Gofal Plant a Pholisi Chwarae, Llywodraeth Cymru), Eleri Thomas (Swyddfa'r Comisiynydd Plant) a Marianne Mannello (Chwarae Cymru). Anogwyd cyfranogwyr i ystyried atebion ymarferol ar gyfer cynyddu defnydd plant o strydoedd ar gyfer chwarae o fewn eu sector penodol hwy.

Crynhodd Geraint Anwyl, cyn-Brif Uwcharolygydd Heddlu Gogledd Cymru, a gadeiriodd y digwyddiad, gyfraniad y cyfranogwyr:

'Mae'r gynhadledd llawn egni yma wedi dynodi rhwystrau fel yr oeddem i gyd yn disgwyl ond, yn bwysicach fyth, dynododd hefyd atebion all yrru datrysiadau realistig

ac ymarferol yn eu blaen. Bydd hyn yn galw ar i bob sefydliad gynnal adolygiadau beirniadol o'r modd y dylid delio â'u gweithgareddau yng nghyd-destun manau cyhoeddus a bydd hefyd yn galw am agwedd bartneriaeth gydlynol. Roedd yr awydd ymysg y cyfranogwyr oedd yn bresennol i symud y materion hyn yn eu blaen, yn gwbl amlwg.'

Roedd y gynhadledd nid yn unig yn gyfle gwych i gynllunio a rhwydweithio â chydweithwyr o sectorau eraill, am y tro cyntaf mewn rhai achosion, ond roedd hefyd yn gyfle arbennig i grŵp Swyddogion Chwarae Gogledd Cymru i gynllunio a throsglwyddo amcanion cyffredin o'u Cynlluniau Gweithredu Asesiadau Digonolrwydd Chwarae.

Ymrwymwch i Gefnogi Staff o Safon

Lesli Godfrey, Arweinydd Strategol dros Waith Chwarae yn y DU, SkillsActive, sy'n sôn wrthym am raglen newydd ActiveAmbition ar gyfer gweithwyr chwarae a chyflogwyr.

Ym mis Ebrill 2012, derbyniodd SkillsActive ariannu gan Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau i weithio gyda chyflogwyr ar draws y bedair gwlad ar raglen o'r enw ActiveAmbition. Y nod oedd i ddatblygu protocol, neu gyfres o egwyddorion arfer dda, y gallai cyflogwyr gytuno iddynt ac fyddai'n cefnogi datblygiad staff a chynyddu safonau mewn lleoliadau chwarae.

Mae Skillsactive, Chwarae Cymru ac aelodau o Gyngor Hyfforddiant ac Addysg Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ar y protocol sgiliau, gan sicrhau ei fod yn berthnasol i waith chwarae ac yn addas i'r diben. Mae'n seiliedig

ar Strategaeth Sgiliau ac Addysg Chwarae a Gwaith Chwarae'r DU 2011-16, sydd â gweledigaeth o 'weithlu chwarae medrus, cymwys sy'n datblygu, y mae ei arfer yn seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith chwarae, ac sy'n darparu cyfleoedd chwarae hygyrch o safon uchel ar gyfer plant a phobl ifainc'. Caiff pwysigrwydd gweithlu medrus ei fynegi hefyd trwy Bolisi Chwarae Llywodraeth Cymru, ac yn ddiweddarach, bydd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn cynyddu'r galw am weithlu sy'n meddu ar sgiliau addas.

Mae'r protocol yn gofyn i gyflogwyr ymrwmo i alluogi eu staff i gael mynediad i gymwysterau addas a chyfleoedd datblygu gweithlu o safon. Mae'n gofyn i gyflogwyr gynllunio ar gyfer, a chofnodi, datblygiad proffesiynol parhaus ac i annog staff i ymuno â'r Gofrestr Proffesiynol Gwaith Chwarae, pan fydd ar gael yng Nghymru.

Fel diolch iddynt am wneud yr ymrwymiad yma, gosodir logos y

ActiveAmbition
A SkillsActive programme

mudiadau hyn ar wefan SkillsActive, gan arddangos yn gyhoeddus eu ymrwymiad i broffesiynoli eu staff, gwella safonau a chynyddu uchelgeisiau trwy ddatblygu'r gweithlu mewn modd effeithlon. Gellir cofrestru'n gwbl rhad ac am ddim. Yn ogystal, bydd SkillsActive yn cysylltu â chyflogwyr er mwyn eu helpu i ddynodi anghenion hyfforddi eu staff a chael hyd i'r arfau y byddant eu hangen i gyflawni eu ymrwymiad.

Mae hwn yn gyfle gwerthfawr i gyflogwyr gwaith chwarae eiriol dros y gwasanaeth y maent yn ei gynnig ac i arddangos i rieni, staff newydd a gweithwyr plant proffesiynol eraill, yn ogystal ag arianwyr a'r llywodraeth, eu bod yn gwerthfawrogi eu gweithlu.

www.skillsactive.com/welsh-playwork-skills-protocol

Lefel 3 P³ – y diweddaraf

Fel y soniwyd mewn rhifyn blaenorol o *Chwarae dros Gymru*, mae Chwarae Cymru wedi derbyn y contract i gynhyrchu deunyddiau dysgu lefel 3 newydd ar gyfer adrannau Tystysgrif a Diploma P³ – Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith. Mae adran y Wobr wedi'i gwblhau a'i beilota'n llwyddiannus eisoes.

Cyflawnir y prosiect trwy SkillsActive o dan Beilot Cyllid Blaenoriaethau'r Sector (SPFP 2), sef rhaglen ariannu ar y cyd sy'n defnyddio Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru i hysbysu argymhellion a fydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth sgiliau ôl-16 a gyflwynir yn fwy ymatebol, ac yn cyfateb yn well i anghenion cyflogwyr.

Rydym wedi cwblhau'r gwaith ar ddeunyddiau dysgu'r Dystysgrif – yr ail o dair adran sy'n rhan o'r cymhwyster. Mae ein tîm ysgrifennu P³ lefel 3 eisoes wedi dechrau llunio

deunyddiau dysgu'r Diploma, a byddant wedi'u cwblhau ac yn barod i'w peilota erbyn Hydref 2014.

Digwyddiadau ennyn diddordeb

Mewn digwyddiadau ennyn diddordeb P³ diweddar a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a Hen Golwyn, dadorchuddiwyd deunyddiau newydd y Dystysgrif lefel 3 i hyfforddwyr a dysgwyr. Roedd y digwyddiadau, a ddenodd gyflogwyr gwaith chwarae, hyfforddwyr a chydweithwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu'r gweithlu, yn gyfle i gasglu adborth defnyddiol a gwerthfawr ar y deunyddiau dysgu newydd.

Hefyd, cafodd y gweithdy ar 'Cynhwysiad yng nghyd-destun Digonolrwydd Chwarae', a hwylywyd gan Di Murray, dderbyniad da gan y cyfranogwyr.

Gwobrau

Yn olaf, rydym ni wrth ein bodd bod tîm ysgrifennu P³ wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Awdur Gwaith Chwarae ym 5^{ed} Gwobrau Blynyddol Gwaith Chwarae. Llongyfarchiadau i'r enillydd, Joel Seath.

Hefyd cyrhaeddodd dull Cymru o gyflwyno cymwysterau P³ y rhestr fer ar gyfer y Wobr i Ddarparwyr Hyfforddiant – Llongyfarchiadau i Brifysgol Swydd Gaerloyw: Hilary Smith, Wendy Russell a Stuart Lester (BA Gwaith Chwarae). Cyflwynwyd y Gwobrau yn 12^{fed} Cynhadledd Genedlaethol Gwaith Chwarae ym mis Mawrth 2014.

I gael rhagor o wybodaeth am gymwysterau a chysiau P³, anfonwch e-bost at gweithlu@chwaraecymru.org.uk

www.chwaraecymru.org.uk/cym/p3

Agweddau Gwaith Chwarae mewn Ysgolion

Mae gweithwyr chwarae ar draws Cymru'n ffurfio perthnasau da gydag ysgolion lleol trwy gefnogi elfen di-gwricwlwm y diwrnod ysgol a hyrwyddo'r hawl i chwarae ymysg plant, pobl ifainc a staff. Yn ddiweddar, cynhaliodd Chwarae Cymru seminar ar gyfer gweithwyr chwarae yng Nghymru i rannu arfer dda o ran agweddau gwaith chwarae mewn ysgolion.

Agorwyd y seminar gyda throsolwg o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a archwilio sut y mae Erthygl 31 (sy'n cynnwys yr hawl i chwarae) yn cefnogi'r erthyglau sy'n ymwneud ag addysg. Amlygodd hefyd y potensial ar gyfer gweld plant yn cael au amddifadu o'u hawliau o dan Erthygl 31 o ganlyniad i bwyslais ar lwyddiant academaidd ffurfiol.

Soniodd Sue Taylor a Ben Tawil o Brifysgol Glyndŵr wrth y seminar am astudiaeth genedlaethol y maent yn ei chynnal i archwilio effeithiau chwarae â rhannau rhydd yn ystod amser egwyl ar lefelau canolbwytio'n yr ystafell ddosbarth (gweler yr erthygl newyddion ar dudalen 4).

Rhoddodd y gweithdai gyfle i gyfranogwyr glywed mwy am:

- y gweithdy *Hawl i Chwarae* yr ydym wedi ei ddatblygu ar gyfer gweithwyr chwarae, ac eraill, i'w drosglwyddo mewn ysgolion
- ein pecyn cymorth *Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysg*
- y rhaglen *Outdoor Play and Learning Programme* a ddatblygwyd gan Michael Follett (www.outdoorplayandlearning.org.uk).

Ben Tawil, un o'n ymddiriedolwyr, gyflwynodd y sylwadau clo ar y dydd. Wrth annerch y cyfranogwyr, meddai:

'Yr hyn a drafodwyd gennym heddiw yw gwerthu neges – symud pobl yn eu blaen o ran eu hagweddau a'u safbwyntiau tuag at blant yn chwarae. Rydym wedi edrych ar ffyrdd o alluogi pobl sydd ddim yn weithwyr chwarae i fod yn fwy llwyddiannus wrth gyflawni hawl plant i chwarae. Mae'n teimlo fel bod gennym gyfoeth o adnoddau a'n bod wedi cyrraedd trobwynt pwysig, ble y mae pobl eraill yn ymuno â ni ac yn newid y modd y maent yn dimad chwarae plant. Mae gennym gyfle da bellach i barhau i orfodi newid er mwyn sicrhau bod mwy o blant yn cael mynediad i fwy o ofod ble y gallant sicrhau eu hawl i chwarae.'

Ysbryd 2014

14-15 Mai 2014
Holiday Inn, Caerdydd

Bellach yn ei thrydedd blynedd ar ddeg, mae Ysbryd yn gynhadledd deuddydd sy'n llawn areithiau ysbrydoledig, trafodaethau bywiog a gweithdai ymarferol am chwarae plant.

Siaradwyr gwadd

Mae'n bleser gennym gyhoeddi y bydd y siaradwyr gwadd canlynol yn ymuno â ni:

Syr Patrick Bateson - Athro Emeritws etholeg ym Mhrifysgol Caergrawnt ac awdur *Play, Playfulness, Creativity and Innovation*

Vaughan Gething AC - Dirprwy Weinidog *Trechu Tlodi*

Dr Ruth Hussey - Prif Swyddog Meddygol Cymru

Gerison Lansdown - Eiriolwraig ryngwladol dros hawliau plant a ddrafftiodd y Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31 o GCUHP

Helle Nebelong - Pensaer tirwedd a llywydd Cymdeithas Lleoedd Chwarae Denmarc

Dr Mike Shooter - Cyn-Lywydd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

Bernard Spiegel - PLAYLINK

Gweithdai

Caiff amrywiol weithdai eu cynnig dros y ddeuddydd – eich unig broblem fydd penderfynu pa rai i'w mynychu!

Bydd gweithdai yn cynnwys

Amgylchedd chwarae mwy cyfoethog gan ddefnyddio siglenni a rhaffau

Yw plant yn gwiro eu rhyw?

Cynllun gweithredu ar gyfer dylunio mannau chwarae trefol naturiol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc

Ailystyried gwerth gwaith chwarae

Dyddiadur teithiol y gweithiwr chwarae

Paratoi ar gyfer cyfranogaeth mewn chwarae

Chwarae gwyllt â dŵr

Prisiau i gyfranogwyr

Eleni mae'n bleser gennym gynnig prisiau cyfranogwyr newydd is ar gyfer ein **holl** aelodau

Archebwch eich lle erbyn:	Holl aelodau	Rhai sydd ddim yn aelodau
30 Ebrill 2014	£225	£250
14 Mai 2014	£250	£275

Mae nifer cyfyngedig o leoedd ar gael am bris gostyngol i wirfoddolwyr di-dâl/myfyrwyr llawn amser yng Nghymru – cysylltwch â ni am fwy o fanylion.

Caiff noson gymdeithasol ar ddiwedd diwrnod cyntaf y gynhadledd, ei chynnwys yn y pris.

Nid yw'n cynnwys llety. Ar gyfer prisiau arbennig yng ngwesty'r gynhadledd (ystafell sengl £86/ystafell ddwbl £96) cysylltwch â'r Holiday Inn, Canol y Ddinas, Caerdydd 029 2034 7206 (9am – 5pm) a dyfynnwch 'Play Wales'.

Pwy ddylai ddod?

Gweithwyr chwarae newydd a phrofiadol, gweithwyr proffesiynol ym maes chwarae, therapyddion chwarae, myfyrwyr, staff a rheolwyr darpariaeth chwarae sy'n gweithio mewn clybiau ar ôl ysgol, meysydd chwarae antur, canolfannau plant integredig, gwasanaethau ieuentid ac unrhyw un sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant neu sydd yn gyfrifol am chwarae plant.

I archebu eich lle ewch at: www.chwaraecymru.org.uk/cym/ysbryd2014